

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Llun,
26 Chwefror 2024 am 5.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion [yma](#)

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-

-:-

Y Cyngorydd B Stephens	Y Cyngorydd M Ashford
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd R Davis	Y Cyngorydd S.Evans
Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd C Middle
Y Cyngorydd G L Warren	Y Cyngorydd S Emanuel

Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol

Mr P Booth
Mr M Veale

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu
Mr R Evans Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Williams Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Ms Jacqueline Mynott
Mr T Britton, Pennaeth Cyflawniad RhCT - Sector Cynradd
Ms S Corcoran, Pennaeth Cyflawniad a Lles - Ysgolion Uwchradd a Phob Oed yn RhCT
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms C Edwards, Pennaeth Trawsffurfio Gwasanaethau a Systemau Data
Ms M Warburton
Ms S Daniel, Uwch Swyddog Gwasanaethau Llywodraethol

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd D Wood
Y Cyngorydd K Webb
Y Cyngorydd C Lises

Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd J Edwards Y Cyngorydd K Morgan
Y Cyngorydd S Morgans

60 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud yn glŷn â'r agenda:

Nododd y Cyngorydd R Davis Fuddiant Personol yn eitem 5 "Mae fy mhartner yn gweithio i theatr Spectacle, sy'n cael ei chrybwyll yn yr adroddiad, ac mae fy merch yn gweithio i'r Urdd"

Nododd y Cynghorydd Sera Evans Fuddiant Personol yn eitem 5 "Mae ysgolion fy meibion wedi'u henwi yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg" ac eitem 6 "mae fy nghyflogwr wedi'i enwi yn yr adroddiad Cydraddoldeb Drafft"

Nododd y Cynghorydd S Emanuel Fuddiant Personol yn eitem 5 "Mae fy mhlant yn mynychu ysgol a grybwyllir yn yr adroddiad"

61 Munudau

PENDERFYNWYD: Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 11 Ionawr a 29 Ionawr 2024 yn rhai cywir.

62 Dolenni Ymgynghori

Aeth y Blaen Swyddog Craffu ati i roi gwybod i'r Aelodau am yr ymgynghoriadau agored, gan eu hatgoffa nhw y dylen nhw gysylltu â'r garfan materion craffu os oes unrhyw gwestiynau'n codi.

63 Rhaglen Waith y Cabinet

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, wrth yr Aelodau fod y Rhaglen Waith yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau er gwybodaeth ym mhob cyfarfod, gan roi cyfle iddyn nhw adolygu a chodi unrhyw faterion a nodwyd ar gyfer y gwaith Rhag-graffu.

Clywodd yr Aelodau fod dyddiad wedi'i bennu i'r Cabinet drafod eitem sy'n ymwneud â Chludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol. Mae'r Aelodau eisoes wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ar y mater yma ond bydd cyfle arall iddyn nhw rag-graffu ar yr eitem cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad.

64 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Croesawodd y Cadeirydd Swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant i'r cyfarfod ar ôl iddyn nhw gael eu gwahodd i roi eu cyfraniadau ar yr eitem yma.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â rhoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–2032 y Cyngor ar waith, a'i gynnydd hyd yma.

Nododd y Rheolwr fod Adroddiad Adolygiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer blwyddyn un y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf 2023. Derbyniwyd adborth ar yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar 14 Tachwedd 2023. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae cynnydd nodedig pellach wedi'i wneud mewn nifer o feysydd ers i'r adroddiad gael ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023, ac mae'r rhain i'w gweld yn yr adroddiad.

Cafodd yr Aelodau eu gwahodd i roi eu sylwadau a'u hadborth ar yr adroddiad

Cododd Aelod bryderon ynghylch y materion staffio ym maes Addysg Gymraeg,

yn enwedig o ran ADY, a dywedodd fod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor i hyrwyddo Addysg fel proffesiwn, yn enwedig ymhlith siaradwyr Cymraeg. Dywedodd yr Aelod y gallai'r Awdurdod ddarparu cymorth yn y maes yma i sicrhau bod yr iaith a'r proffesiwn addysg yn cael eu hyrwyddo'n well, megis gweithio gydag ysgolion a cholegau i annog disgyblion i astudio'r Gymraeg yn 6^{ed} dosbarth.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Chynhwysiant yn cydnabod bod y Gweithlu yn her, nid yn unig o ran addysg Gymraeg ond yn y sector addysg Saesneg hefyd. Cytunodd y Cyfarwyddwr fod angen rhoi camau i fynd i'r afael â hyn ar waith ledled y wlad, gan fod hon yn broblem genedlaethol, a bod angen dull systemig o roi pobl ar lwybr carlam i'r sector addysg Gymraeg, gan feddwl yn greadigol am sut rydyn ni'n annog siaradwyr Cymraeg i ystyried gyrfa yn y maes. Aeth hi ymlaen i nodi bod gyda ni yn RhCT gyfleoedd i'r rhai sy'n ystyried y llwybr gyrfa yma wirfoddoli mewn ysgolion yn rhan o leoliadau profiad gwaith, ond cydnabu fod angen atgyfnerthu'r drefn.

Nododd Aelod o'r adroddiad fod buddsoddiad mewn addysg Gymraeg yn ne RhCT a dywedodd yr hoffai weld amserlen sy'n nodi'r datblygiadau a'r drefn ddilynol ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod buddsoddiad yn cael ei arwain gan ble mae'r flaenoriaeth fwyaf a lle mae angen mynd i'r afael â chapasiti dros ben yn ogystal â meysydd sydd dan bwysau. Nododd hi fod y gwasanaeth wrthi'n ystyried y 9 mlynedd nesaf, a bydd y garfan yn rhannu ei chynlluniau â Llywodraeth Cymru yn fuan, unwaith y cytunir ar yr adolygiad a'r amserlen flaenoriaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Ysgolion yr 21ain Ganrif, fod Cwm Rhondda yn rhan o Raglen Band B a'i bod hi'n rhan o'r Rhaglen Amlinellol Strategol gyda Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd fod astudiaeth dichonoldeb wedi'i chynnal a bod y gwasanaeth yn gweithio gyda dylunwyr trefol i reoli'r safle. Nododd fod dod o hyd i safle digon mawr i gartrefu ysgol uwchradd newydd yn heriol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y garfan hefyd yn gweithio ar yr Ysgol Arbennig gydag astudiaeth dichonoldeb ar waith yn ogystal â thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod lleoedd ysgol yn cael eu harwain gan alw ac edrychir ar leoliadau ysgolion Cymraeg ynghyd â rhai datblygiadau tai sylweddol newydd, lle mae ysgolion Cymraeg yn cael eu hannog yn yr ardaloedd hynny.

Dywedodd Aelod yr hoffai weld rhagor o sôn am yr Eisteddfod a pha waith y mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi staff i wella eu sgiliau Cymraeg fel bod disgyblion yn gallu clywed y Gymraeg drwy gydol eu haddysg. Gofynnodd yr Aelod pryd y byddwn ni'n gweld amserlen arfaethedig i fynd i'r afael â'r camau gweithredu

Gofynnodd Aelod a ydyn ni wedi cyflawni'r disgwyliadau, a sut olwg sydd ar y targedau ar gyfer yr adroddiad blynyddol yma. Ychwanegodd Aelod arall fod pwnc y targedau wedi'i godi'n flaenorol gan yr Aelodau a hoffai weld rhagor o dargedau darbodus yn cael eu hychwanegu er hwylustod darllen i'r Aelodau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant mai'r targed trosfwaol yw twf o 10% yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r adborth a gawson ni gan Lywodraeth Cymru yn dweud nad ydyn ni wedi cyflawni hyn eto, a bydd yn heriol iawn i'w fodloni. Mae Canlyniad 7 wedi ennyn ymateb da gan Lywodraeth

Cymru ac mae wedi bod yn ddefnyddiol o ran deall natur yr heriau. Nododd fod y rhaglen fuddsoddi wedi bod yn wirioneddol lwyddiannus ac yn uchelgeisiol o'i chymharu â gwaith Awdurdodau Lleol eraill.

Gofynnodd Aelod am ragor o fanylion ynghylch pam fod pobl 25-34 oed yn gadael y proffesiwn, ac a oedd modd i'r Awdurdod wneud rhagor i'w hannog i barhau yn y proffesiwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant wedi gofyn am adroddiad gweithlu, a fydd yn mynd i'r afael â hyn ac yn rhoi mwy o fanylion amdano.

Roedd Aelod yn dymuno cofnodi nad yw'n siarad Cymraeg, ond bod ei blant yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Dywedodd eu bod nhw'n cael profiadau cadarnhaol dros ben yn RhCT ac anogodd unrhyw un sy'n ystyried gwneud hyn i fynd amdani.

Nododd Aelod fod y datganiad ar Ddeiliant 3 yn cyfeirio at gyfraddau pontio cadarnhaol ledled y Fwrdeistref Sirol, fodd bynnag, roedd rhai yn trosglwyddo i'r ysgol cyfrwng Saesneg agosaf, yn hytrach nag ysgol Gymraeg. Gofynnwyd a yw'r Cyngor yn bwriadu ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i hyn

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod yr ardal dan sylw o fewn un clwstwr a fydd yn cael ei adolygu ymhellach i ddeall pam, a dywedodd efallai mai lleoliad yr ysgol cyfrwng Saesneg agosaf oedd y rheswm. Dywedodd y bydd angen ffurfio partneriaethau gydag ysgolion cyfagos fel bod rhieni/cynhalwyr a disgyblion yn derbyn yr holl wybodaeth berthnasol o ran eu dewisiadau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu fel cyfle datblygu strategol i sicrhau nad yw'r twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn cael ei gollu.

Gofynnodd Aelod i adroddiadau'r dyfodol gynnwys dangosyddion cyflawniad, fel bod Aelodau'n gallu craffu ar ddata ystyrion a pherthnasol. Cydnabu'r Cyfarwyddwr y pwynt yma.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd a wnaed ers y diweddariad blaenorol.

Ystyried y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwaith Blyneddol atodedig a nodi'r adborth dilynol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

65 RHEOLI DIOGELWCH TOMENNYDD YNG NGHYNGOR BWRDEISTREF SIROL RhCT

Cyflwynodd y Pennaeth Isadeiledd a Rheoli Asedau yr adroddiad i'r Aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am y gwaith y mae'r Garfan Diogelwch Tomennydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â rheoli, monitro a goruchwylio tomennydd glo segur yn y Fwrdeistref Sirol. Ategwyd yr adroddiad gan gyflwyniad i'r Aelodau.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Cyfeiriodd Aelod at y swyddi gwag o fewn y carfanau a nododd eu bod nhw'n cael eu llenwi gan staff asiantaeth ar hyn o bryd. Gofynnodd beth oedd y cynlluniau tymor hir ar gyfer llenwi'r swyddi gwag yma'n barhaol. Ymatebodd y Pennaeth Isadeiledd a Rheoli Asedau ei fod wedi cael awdurdod i ail-hysbysebu'r swyddi ond dywedodd fod y farchnad yn gyfyngedig o ran y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y swydd, ynghyd â chystadleuaeth o ran cyflogau.

Cyfeiriodd un Aelod at gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd lle roedd presenoldeb cyfyngedig, a gofynnodd a oedd y Cyngor yn gwneud digon i godi ymwybyddiaeth o'r materion. Aeth y Swyddog ati i gydnabod bod presenoldeb isel yn y cyfarfod, ac mae hyn yn rhywbeth y mae'r garfan yn edrych arno. Ychwanegodd fod trigolion yn cael eu hannog i gyflwyno ymholiadau os oes gyda nhw bryderon penodol.

Gofynnodd Aelod pa bwerau sydd gan y Cyngor i ymdrin â pherchnogion tomennydd preifat. Ymatebodd y Swyddog bod nifer o berchnogion tomennydd preifat yn RhCT ond mae bwerau'r Cyngor yn gyfyngedig. Dywedodd pe bai pryderon diogelwch uniongyrchol, mae modd cyhoeddi "ddiffyg du" a fyddai i bob pwrpas yn golygu y dylid gweithredu ar unwaith. Daeth i'r casgliad bod y Cyngor yn cynnal yr archwiliadau diogelwch, waeth beth fo'r sefyllfa o ran perchenogaeth.

Gofynnodd Aelod beth yw ymrwymiad tymor hwy Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â diogelwch tomennydd yn y dyfodol. Ymatebodd y Swyddog nad oedd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad tymor hwy parhaus i gyllid ar gyfer diogelwch tomennydd glo, ond y gellir hysbysu'r Pwyllgor os bydd y sefyllfa'n newid. Cododd yr Aelodau gwestiynau mewn perthynas â thomennydd yn Nhylorstown a Thon Pentre a gofyn am adroddiadau rheolaidd ar y mater yn ôl i'r Pwyllgor. Aeth y Swyddog ati i gydnabod hyn, ac ychwanegodd y dylai Aelodau gysylltu â'r Garfan Diogelwch Tomennydd Glo ar unrhyw adeg os oes gyda nhw unrhyw ymholiadau penodol mewn perthynas â thomennydd yn eu ward/ardal.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar yr effeithiau ar gostau i'r Awdurdod yn ogystal ag unrhyw orgyffwrdd â chynlluniau lliniaru llifogydd a sut mae hyn yn cael ei reoli.

Dywedodd y Pennaeth Isadeiledd a Rheoli Asedau fod rhan y Cyngor mewn tomennydd preifat hefyd yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a thomennydd sy'n eiddo i'r Awdurdod Glo, a bod gyda'r Cyngor ddyletswydd i atal perygl o ran tomennydd ond y dylid cydnabod bod cyfyngiadau ar y bwerau hynny. Cadarnhaodd fod hyn i gyd yn dod o dan arian grant y mae'r awdurdod lleol yn gwneud cais amdano ar ran perchnogion preifat. Dywedodd, mewn perthynas â thynnu Coed a rheoli dŵr, y gall y Cyngor wneud gwaith cynnal a chadw ar sianeli draenio, ond bod yn rhaid gwneud cais am ganiatâd cwrs dŵr yn ogystal â gofynion rheoliadol eraill o dan y fframwaith y mae'n rhaid iddo gadw ato.

Gofynnodd Aelod a fyddai'r Awdurdod Lleol yn ystyried cael gwared ar y tomennydd lle maen nhw'n peryglu cymunedau ac a fyddai hyn yn fwy cost effeithiol yn y tymor hwy. Ymatebodd y Swyddog bod yn rhaid cael gwared ar domennydd ar sail blaenoriaeth gan fod y gost yn uchel iawn a dywedodd y dylid edrych ar sefydlogrwydd tomennydd i weld pa waith y gellir ei wneud os yw diogelwch yn broblem.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Bod yn effro i waith y Garfan Diogelwch Tomennydd
2. Ystyried y gwahanol ddulliau gweithredu ar gyfer Diogelwch Tomennydd gyda CBSRhCT o dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, fel tirlfeddiannwr a chyda gwaith rheoli risg parhaus a blaenoriaethu adnoddau.

Derbyn adroddiadau pellach i graffu arnyn nhw.

66 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022-2023

Dywedodd Y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu, wrth yr Aelodau fod yr adroddiad yn rhoi cyfle iddyn nhw rag-graffu ar Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Drafft y Cyngor sydd ynghlwm yn Atodiad B, ar gyfer y flwyddyn 2022-23 cyn i'r Cabinet ei ystyried a chytuno i gyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022-23. Bydd yr Aelodau'n cofio bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i nodi'n destun rhagor o graffu yn rhan o welliannau craffu yn 2020.

Cyflwynodd y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022/2023 i'r Aelodau er mwyn cynnal gwaith rhag-graffu a rhoi adborth a sylwadau cyn i'r Cabinet drafod yr adroddiad.

Esboniodd y swyddog fod yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yma wedi cael ei ddatblygu er mwyn cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor i gofnodi ei gynnydd o ran cyflawni dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a yw'r adroddiad wedi casglu'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor i adrodd ar sut mae wedi cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Croesawodd yr Aelodau'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a gwnaed y sylwadau canlynol

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ac yn ystod trafodaethau bu'n ystyried y posibilrwydd o wahaniaethu yn erbyn tlodi a dosbarth, sy'n peri pryder. Felly argymhellodd yr Aelodau y dylid ystyried hyn yn rhan o'r broses adrodd mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Wrth ddadansoddi data drwy gydol yr adroddiad, roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r canlyniadau gwell mewn nifer o feysydd gan gynnwys y Rhaglen Perthnasau Iach. Amlygodd yr Aelodau nad oedd y data yn awgrymu canlyniadau gwell yn dilyn y prosiect. Sicrhawyd yr Aelodau o glywed, fodd bynnag, nad oedd hyn yn wir a bod y canlyniadau'n gadarnhaol.

Nododd yr Aelodau hefyd y data monitro Cydraddoldeb ynghylch hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd, ac argymhellwyd mwy o sylwebaeth a chrynodeb ynghylch ethnigrwydd, yn enwedig gan gynnwys gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn ehangu arferion recriwtio i sicrhau ein bod yn gyflogwr deniadol i'r mwyafrif byd-eang.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Ymgymryd â gwaith rhag-graffu ar yr adroddiad (ynghlwm yn Atodiad B), gan roi cyfle i'r Pwyllgor Craffu gyfrannu at y mater hwn; a

Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i gyflwyno adborth i'r Cabinet ar ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

67 Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Drafft)

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod yr adroddiad gerbron yr Aelodau i rag-graffu ar Adroddiad Cydraddoldeb Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Drafft)2024-28 drafft y Cyngor. Nododd fod Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael y cyfle i rag-graffu ar y cynllun cyn i'r Cabinet ei ystyried a chytuno i'w gyhoeddi. Bydd yr Aelodau'n cofio

nodi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn faes ar gyfer mwy o waith craffu fel rhan o welliannau craffu a nodwyd yn 2020.

Croesawodd yr Aelodau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gefnogwyd gan holl Aelodau'r Pwyllgor. Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu hymrwymiad i weithredu'r cynllun a chawsant eu cysuro o weld cynllun gweithredu manwl yn amlinellu ei weithrediad.

Argymhellodd yr Aelodau y dylai'r Pwyllgorau Craffu ailymweld â'r eitem hon yn y dyfodol i fesur ei heffeithiolrwydd a'i gweithrediad, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno hyfforddiant gorfodol i'r holl staff, gan gydnabod ei bod hi'n dasg enfawr.

Yn dilyn trafod yr wybodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Ymgymryd â rhag-graffu ar yr adroddiad (ynghlwm yn Atodiad B), gan roi cyfle i'r Pwyllgor Craffu gyfrannu at y mater hwn; a
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i gyflwyno adborth i'r Cabinet ar ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
3. I'w gynnwys fel eitem ar Raglen Waith Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol

68 Materion Brys

Dim

69 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 pm

Cadeirydd.